
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2000 Rhif 1885 (Cy. 131)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Cynhyrchion Cig
(Hylendid) (Diwygio) (Cymru) 2000**

Wedi'u gwneud - - *14 Gorffennaf 2000*
Yn dod i rym - - *31 Gorffennaf 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(b),(c), (d),(e) ac (f), 17(1), 26, 45, 48(1) a 49(2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990⁽¹⁾ a pharagraffau 5(1), (2) a (3) a 6(1)(a) o Atodlen 1 iddi, ar ôl iddo ystyried y cyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno ac ar ôl iddo, yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, ymgynghori ac (i'r graddau na ellid bod wedi gwneud y Rheoliadau hyn o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990) gan ei fod wedi'i ddynodi⁽²⁾ at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972⁽³⁾ mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) (Diwygio) (Cymru) 2000, byddant yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2000.

Diwygiad i Reoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) 1994

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) 1994⁽⁴⁾ yn unol â pharagraff (2) isod i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

(2) Rhoddir y paragraff canlynol yn lle paragraff 2(a) o Ran IX o Atodlen 2—

- (a) The meat product to be used in the prepared meal shall as soon as it has been cooked —

(1) 1990 p.16. Gweler adran 4(1) i gael diffiniad o “the Ministers”. Trosglwyddwyd y swyddogaethau a freiniwyd yng Ngweinidogion y Goron i Gymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Diwygiwyd adran 48 gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28).
(2) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (O.S. Rhif 1999/2788).
(3) 1972 p.68.
(4) O.S. 1994/3082 a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/539, O.S.1995/1763, O.S. 1995/2200, O.S. 1995/3205, O.S. 1996/1499 ac O.S. 1999/683.

- (i) be mixed with the other ingredients as soon as practically possible; in that event the time during which the temperature of the meat products is between 10°C and 60°C shall not exceed two hours,
- (ii) be refrigerated to 10°C or less before being mixed with the other ingredients, or
- (iii) be cooled and mixed with the other ingredients in such a way (to be specified in the approval document for the establishment concerned) that the timing during which the temperature of the meat product is between 10°C and 60°C is kept to a minimum;”.

Diwygiad canlyniadol

3. I'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, diwygir Atodlen 2 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996⁽⁵⁾ (Rheoliadau sy'n berthnasol i fasnachu o fewn i'r Gymuned) drwy fewnosod y cyfeiriad canlynol ar ddiwedd paragraff 5 —

“The Meat Products (Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2000.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998⁽⁶⁾

14 Gorffennaf 2000

Jane Davidson
Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

⁽⁵⁾ O.S. 1996/3124 a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/539, O.S. 1995/1763, O.S. 1995/2200, O.S. 1995/3205, O.S. 1996/1499 ac O.S. 1999/683. Cymhwyswyd O.S. 1996/3124 gan O.S. 1996/3125 i fewnforio cig ffres.

⁽⁶⁾ 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig. Maent yn diwygio —

- (a) Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) 1994 ([O.S. 1994/3082](#), fel y'u diwygiwyd); a
- (b) Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio 1996 ([O.S. 1996/3124](#)))

yn y naill achos a'r llall i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru (mae [O.S. 1994/3082](#) ac [O.S. 1999/3124](#) ill dau yn gymwys i Brydain Fawr gyfan).

2. Effaith y diwygiadau uchod yw caniatáu trydydd dull o baratoi bwydydd parod ar sail cig o 31 Gorffennaf 2000 ymlaen yn unol â phwynt 2(a) o Bennod IX o Atodiad B i Gyfarwyddeb y Cyngor 77/99/EEC (a fewnosodwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 95/68/EC, OJ Rhif L332, 30.12.95, t.10).